

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod arbennig a gynhaliwyd nos Lun 27/4/2015

Minutes of the special meeting held on Monday evening 27/4/2015

Presennol / Present:

Mr Derek Owen (Cadeirydd/Chair), Mr Elfed Jones, Mrs Marilyn Hughes, Mr Dei Owens

Cynghorwyr Sirol / County Councillors: Cyng./Cllr Richard Jones

Yn Bresennol / In Attendance: Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk)

Ymddiheuriadau / Apologies:

Mr Jack Longman, Ms Rose Griffiths, Mr David Livingstone

1 Croeso / Welcome

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Derek Owen a diolchwyd i bawb am fod yn bresennol. Mynegwyd siom nad oedd mwy o aelodau wedi gwneud ymdrech i fod yn bresennol.

Derek Owen welcomed everyone to the meeting and thanked them for their attendance. It was disappointing that more members had not made an effort to attend.

2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Richard Jones - ni fydd yn cymryd rhan yn y drafodaeth. / He will not be participating in any discussion.

3 Cais Cynllunio Fferm Wynt Rhyd y Groes Wind Farm Planning Application

Pwrpas y cyfarfod oedd i drafod cais cynllunio 20C102L/EIA/RE i ddigomisiynnu'r fferm wynt bresennol a chodi 13 tyrbina newydd ynghyd a gosod ceblau trydanol, gosod llwybrau newydd a chodi is-orsaf ychwanegol.

Deallwyd nad oedd son am ail-gomisiynnu'r fferm wynt yn y cais cynllunio gwreiddiol 25 mlynedd yn ol, ond yn hytrach bod y tirlun i'w ddychwelyd fel ag yr oedd cyn i'r datblygiad gymryd lle.

Cytuno nad oedd yn deg ar y pedwar aelod oedd yn bresennol i wneud penderfynniad ar ddatblygiad o'r fath ar ran y gymuned. Teimlwyd hefyd nad oedd yn deg ar y gymuned bod cyn lleied o gynrychiolwyr wedi dod i'r cyfarfod.

Mae teimladau cryf yn y gymuned yn erbyn y datblygiad newydd fel y mae wedi ei gyflwyno, yn benodol oherwydd maint y tyrbinau mae'r cwmni am eu gosod. Maent yn llawer iawn mwy na'r rheini sydd yno yn barod (dwywaith eu maint), ac byddent yn amlwg iaw n ar y tirlun. Edrychwyd ar luniau a mapiau wedi eu paratoi gan TPG Wind oedd yn cadarnhau'r newidiadau yma. Roedd pryderon mawr am leoliadau'r tyrbinau, y dirwedd, eu maint a'r goleuadau. Mae'n debyg bod technoleg wedi datblygu erbyn hyn nad oes angen goleuadau.

Gwnaed penderfyniad yn 2011 i beidio â gwrthwynebu melinau gwynt mewn egwyddor, ond roedd hynny cyn bod maint y datblygiad, ac yn benodol maint y tyrbinau wedi ei gadarnhau. Trafodwyd yr angen am gyfarfod cyhoeddus gyda TPG Wind. Deallwyd bod y cwmni eisoes wedi bod yn y Neuadd Bentref, ond nad oedd ganddynt lawer o wybodaeth ac atebion ar gyfer y cyhoedd.

Wrth gymharu'r incwm posib o ddatblygiad posib Nant y Fran, a'r datblygiad yma yn Rhyd y Groes, gwelwyd bod yr arian a gynigir i'r gymuned lawer iawn yn llai na'r hyn a ddisgwylir am y nifer o dyrbinau o'r maint yma. Cytuno y byddai rhaid i Lanbadrig gydweithio ag Amlwch er mwyn sicrhau'r gorau i'r cymunedau yn ariannol pe bai'r datblygiad yn mynd yn ei flaen.

Nid oedd son am fudd cymunedol pan gafodd y fferm ei ddatblygu o'r newydd, yn hytrach y tirfeddianwyr oedd yn cael yr arian. Gofynnwyd a fydd yr un rhai yn elwa eto. Pwysleisiwyd pwysigrwydd arian cymunedol

gan fod y gymuned gyfan yn cael ei heffeithio.

Cytuno nad oedd pedwar aelod yn gallu gwneud penderfyniad ar y cais, nid oedd yr aelodau oedd yn bresennol yn hapus i dderbyn y cais fel y cyflwynwyd. Deallwyd bod Cyngor Tref Amlwch yn cyfarfod yn fuan i drafod y cais, ac fe gynigwyd bod y ddua gyngor yn cwrdd cyn gynted â phosib i drafod y ffordd ymlaen.

Trafodwyd y posibilrwydd o benodi asiant i gynnwl trafodaethau gyda TPG Wind ar ran y cynhorau a phenderfynwyd y byddai cynrychiolaeth o'r ddua Gyngor yn ddigonol.

Diolchwyd i'r rheini oedd yn bresennol am wneud yr ymdrech.

The purpose of the meeting was to discuss the planning application ref. 20C102L/EIA/RE to decommission the current wind farm and erect 13 new turbines along with laying new cables, tracks and erecting an additional sub-station.

It was understood that there was no mention of re-commissioning the wind farm in the original application 25 years ago, rather that the landscape be returned to its natural state pre-development.

It was agreed that it was unfair on the four members present to make such a decision on behalf of the community. It was felt that it was also unfair on the community that so few members had come to the meeting.

There are strong feelings in the community against the development as it has been presented, mainly due to the size of turbine that the company will erect. They are far greater in height than the ones currently on site (double the height), and they will be very visible on the landscape. Photos and maps prepared by TPG Wind were examined and confirmed these changes. There were great concerns about the location of the turbines, their size and lights. It is understood that technological advances within the tips eliminates the need for lights on the hubs.

A decision was made in 2011 not to oppose wind turbines in principle, but that was prior to knowing the size of the development, and in particular prior to the size of the turbines being confirmed. The need for a public meeting with TPG Wind was discussed. It was understood that the company have already been in the village hall, but they did not have much information or answers for the community.

Comparing the potential income from the Nant y Fran development and this development at Rhyd y Groes, it is obvious that the money offered to the community is far less than that expected from the number of turbines of the proposed size. It was agreed that Llanbadrig would have to work with Amlwch to secure the best possible financial deal for the communities should the development go ahead.

There was no mention of community benefit when the wind farm was initially developed, rather the land owners received the money. It was asked whether it would be the same land owners benefitting again. The importance of community funding was emphasised as the community on a whole will be affected.

It was agreed that only four members could not make a decision on the application; those present were not happy to accept the application in its current form. It was understood that Amlwch Town Council will be meeting soon to discuss the application and it was proposed that the two councils meet as soon as possible to discuss a way forward.

The possibility of appointing a consultant to hold discussions with TPG Wind on behalf of the councils was discussed and it was agreed that representatives from each council would be sufficient.

Those present were thanked for making the effort to be present.

Daeth y cyfarfod i ben am 8 o'r gloch. / The meeting closed at 8pm.